Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

Ionawr 2020

Ein dull gweithredu

1. Clywsom dystiolaeth lafar gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Clywsom hefyd gan Ken Skates AC, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a Lee Waters AC, y Dirprwy Weinidog. Darparwyd cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o flaen llaw.[1]

2. Mae Rhan 1 yr adroddiad hwn yn nodi gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft o ran sut mae'n ymgysylltu â phortffolio Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

3. Mae Rhan 2 yr adroddiad yn canolbwyntio ar graffu ar y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Bydd materion eraill a ystyriwyd yn ystod y sesiwn, ond nad ydynt yn ymwneud â'r gyllideb ddrafft, yn cael sylw mewn gohebiaeth â'r Gweinidog.

[1] Mae trawsgrifiadau o'r cyfarfod a chyflwyniadau ysgrifenedig perthnasol ar gael ar wefan y Pwyllgor - http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=444&MId=5930&Ver=4

Rhan 1 – Craffu ar Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

1. Casgliadau cyffredinol

4. Mae cyfanswm y gwariant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynyddu o £300.8 miliwn yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin 2019 i £350.2 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2020-21. Mae hyn yn gynnydd o 16.4% (£49.3m) yn nhermau arian parod ac 14.3% (£43 miliwn) mewn termau real.

5. Cadarnhaodd y Gweinidog fod ei phortffolio wedi derbyn cynnydd o 0.7 y cant ac, yn ôl pob tebyg, gynnydd o 50 y cant yn ei chyllideb gyfalaf. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu:

> "that's where you would want the funding to be, really. If you look across my portfolio, it's the capital area of the budget that you would want it to be in."

6. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y gyllideb ddrafft yn:

> "builds on the commitment of both the First Minister and the Finance Minister, who said we must maximise the use of all our budgetary levers to support a greener Wales."

7. Mae bioamrywiaeth a datgarboneiddio yn ddau o blith wyth maes blaenoriaeth, a nodwyd yn Ffyniant i Bawb, a fu'n ganolog i'r gwaith o ddatblygu cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Argyfwng hinsawdd

8. Esboniodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r gyllideb ddrafft:

> "Most spending decisions will influence a whole range of outcomes and based on our previous experiences … attributing each pound we spend to a single outcome does not accurately or meaningfully represent the link between spending and outcomes. Therefore our approach has been to identify projects that support emissions reductions, rather than representing the entirety of the Welsh Government's spend on climate change mitigation."

9. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Gynllun 10 Pwynt i Ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru. Awgrymodd y cynllun y bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gofyn am lawer mwy o sylw â ffocws a

chyfanswm buddsoddiad mewn datgarboneiddio o £991 miliwn yng nghyllideb 2020-21.

10. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn croesawu mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at gyfanswm y buddsoddiad, aeth ymlaen i ddweud:

> "You've got to be pragmatic, haven't you? We just don't have those levels of funding. We've had a decade of austerity. As I say, I've had an increase in both revenue and capital, but the capital one, in particular, is very significant."

11. Dywedodd y Gweinidog mai un o ddibenion datgan argyfwng hinsawdd oedd ysgogi rhannau eraill o'r sector cyhoeddus ac unigolion i weithredu. Pwysleisiodd y bydd angen gweithredu ar draws pob rhan o gymdeithas ac eglurodd:

> “our most powerful initiatives are not necessarily those which receive the highest financial investment but those which provide the opportunity for people in Wales to invest their time and energy to take direct action on tackling climate change.”

Ein barn ni

Dyma'r gyllideb gyntaf ers i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd. Pan wnaethom gynnal ein gwaith craffu blynyddol ar newid yn yr hinsawdd, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai Cyllideb 2020-21 yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi ei datganiad o argyfwng hinsawdd gyda chamau gweithredu a chyllid cysylltiedig.

Ar y sail hon, roeddem yn disgwyl cyllideb drawsnewidiol a radical. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o hyn. Rydym yn siomedig i ddod i'r casgliad bod y gyllideb ddrafft hon yn “fusnes fel arfer”.

Fe wnaeth ein Hadroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd argymell y:

“Dylai Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru esbonio a dangos yn glir sut y bydd dyraniadau cyllid yn cefnogi’r flaenoriaeth datgarboneiddio.”

Nid yw'n eglur o'r gyllideb ddrafft sut mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu buddsoddiad yng ngoleuni ei datganiad o argyfwng hinsawdd. Nid yw'n eglur chwaith sut y bydd dyraniadau penodol yn effeithio ar ddatgarboneiddio.

Rydym yn nodi sylwadau Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol bod dull Llywodraeth Cymru yn golygu na all ddweud wrthym a yw’r ffordd y mae’n

gwario arian yn arwain at gynnydd neu ostyngiad mewn allyriadau carbon. Rydym yn cytuno â hynny.

Argymhellodd ein Hadroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd hefyd:

"Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull, megis asesiad effaith carbon, i adrodd i'r Cynulliad am benderfyniadau polisi a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allbwn carbon."

Mae'r Comisiynydd wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o'i gwariant o ran effaith ar lefelau carbon ac y dylai hefyd gyhoeddi manylion effaith carbon cyffredinol ei chyllideb. Rydym yn cytuno a byddwn yn disgwyl gweld y wybodaeth hon pan gyflwynir cyllideb ddrafft 2021-22.

Argymhelliad 1. Yn y dyfodol, ynghyd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dylid cynnwys asesiad cynhwysfawr o'i heffaith cyffredinol ar lefelau carbon. Er mwyn llywio'r asesiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o effaith y penderfyniadau yn ei chyllideb ar lefelau carbon.

Y Cynllun Twf Amgylcheddol

12. Dyrannwyd "cyfalaf cyffredinol" o £137 miliwn ar draws Llywodraeth Cymru yn 2020-21 a dyrannwyd cyfalaf o £5 miliwn i bortffolio'r Gweinidog o gronfeydd wrth gefn yn benodol ar gyfer "twf amgylcheddol" (BEL 2825). Bydd y £5 miliwn wedi'i anelu at brosiectau y gellir eu gweld "o stepen y drws" ac a allai gynnwys cronfa lleoedd lleol ar gyfer natur.

13. Yn wreiddiol, roedd y Cynllun Twf Amgylcheddol yn ymrwymiad ym maniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog. Mewn tystiolaeth lafar, disgrifiodd y Gweinidog ef fel naratif trosfwaol ar gyfer gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru dros Gymru wyrddach. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl i'r Cynllun cyntaf gael ei gyhoeddi ym mis Hydref neu fis Tachwedd 2020. Eglurodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

> "The £137 million is basically an indication of the capital across Government that we will spend on environmental growth more generally, and the £5 million is specifically, as the Minister said, for the environmental growth plan and the work at a more local, community level."

14. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio defnyddio'r cyllid o £5 miliwn a ddyrannwyd i'w phortffolio mewn ffordd arloesol a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i gymunedau lleol. Eglurodd drwy ddweud:

> "If we want to acquire, restore and enhance nature, we have to start doing different things. We know that. I want it to be community-led activity. So, it's about looking at what we've got already and perhaps building on that.
>
> It is going to be that kind of small scheme, but I think we have to be a more—well, a bit less risk-averse; that's probably the best way of saying it."

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Cynllun Twf Amgylcheddol yng nghamau cynnar ei ddatblygiad ac, o ganlyniad, mae diffyg eglurder o ran sut y bydd yn cael ei roi ar waith a'i weithredu'n ymarferol. Serch hynny, mae cryn dipyn o gyllid wedi'i ddyrannu i Gynllun na ragwelir y bydd yn cael ei gyhoeddi tan fis Hydref neu fis Tachwedd 2020.

Byddem yn ddiolchgar am wybodaeth bellach gan y Gweinidog am yr amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun. Yn benodol, hoffem glywed am unrhyw fwriad i ymgynghori ar y cynigion a phryd y bydd hyn yn digwydd.

Hoffem wybod hefyd pa ganlyniadau y mae disgwyl i'r Cynllun eu cyflawni a sut y bwriedir iddo ategu blaenoriaethau polisi eraill, megis datgarboneiddio.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 3 mis ynghylch datblygiad y Cynllun Twf Amgylcheddol. Dylai hyn gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r Cynllun; gwybodaeth am unrhyw gynlluniau i ymgynghori ar y cynigion; a gwybodaeth am yr amcanion a'r canlyniadau y bwriedir i'r Cynllun eu cyflawni.

2. Datgarboneiddio

15. Mae £ 140 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu ar draws Llywodraeth Cymru i gefnogi datgarboneiddio ac i ddiogelu'r amgylchedd. O'r £140 miliwn, mae £95.6 miliwn yn cael ei ddyrannu'n benodol i fesurau datgarboneiddio. Mae £62.4 miliwn o hyn wedi'i anelu'n uniongyrchol at y sector trafnidiaeth. Mae BEL 3770 (Datgarboneiddio ac ynni) yn cynyddu'r cyllid refeniw o £2.6 miliwn i £3.8 miliwn o ganlyniad i ddyraniad ychwanegol o £1.2 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn. Nid oes cyllid cyfalaf o dan y BEL hwn.

16. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y £96 miliwn ychwanegol ar gyfer mesurau datgarboneiddio yn rhan o becyn buddsoddi gwyrdd ehangach o fwy na £140 miliwn. Ychwanegodd:

> "What we're trying to do is make sure that decarbonisation is mainstreamed across Government. As soon as I came into this portfolio three years ago, we set up the decarbonisation ministerial task and finish group, which I chair, and I lead on. And every Minister has responsibility for this part of policy across Government, and it's business as normal, if you like—decarbonisation now."

17. Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb gyfalaf gyffredinol a ddyrannwyd i'w phortffolio wedi cynyddu dros 50%:

> "I have received a significant amount of funding in relation to biodiversity and in relation to air quality, for instance. So, that obviously feeds into the decarbonisation element too."

18. Tynnodd y Gweinidog sylw at £15 miliwn a ddyrannwyd i greu systemau ynni carbon isel. Eglurodd:

> "I've also set aside some revenue funding in relation to my decarbonisation budget to increase activity on renewable energy and on energy planning. That started as the Energy Atlas...last year. That has now moved into energy planning to make sure that people know the best place to look for renewable energy."

Gostyngiad o 95% mewn allyriadau erbyn 2050

19. Ym mis Mai 2019, argymhellodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UK CCC) darged sero-net ar gyfer y DU gyfan erbyn 2050. Argymhellodd y dylai Cymru ddeddfu ar gyfer gostyngiad o 95% o leiaf erbyn 2050, a fyddai'n "gyfraniad teg" i darged y DU ac a fyddai'n adlewyrchu amgylchiadau Cymru. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi wedi hynny mai uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyflawni'r targed sero-net erbyn 2050.

20. Gan gyfeirio at y gost o gyrraedd y targed o 95%, dywedodd y Gweinidog fod UK CCC wedi cynnal arfarniad o gostau a buddion lleihau allyriadau gyda chefnogaeth grŵp cynghori arbenigol pwrpasol. Roedd UK CCC wedi amcangyfrif bod y gost o symud i darged sero-net ar gyfer y DU—byddai hynny'n golygu targed o 95 y cant i Gymru—rhwng 1 y cant a 2 y cant o'r cynnyrch domestig gros. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ailystyried sut y dyrannwyd y cyllid pe bai'r UK CCC yn ei chynghori i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd yr ymrwymiad hwn yn gysylltiedig â'r gyllideb ddrafft hon yn benodol.

Ein barn ni

Fel yr ydym wedi'i nodi mewn adroddiadau blaenorol, nid yw'n eglur sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu'r gwariant cyfredol ar ddatgarboneiddio.

At hynny, ni all Llywodraeth Cymru ddweud pa gyllid fydd yn angenrheidiol dros y 5 neu 10 mlynedd nesaf i gyrraedd ei thargedau dros dro. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd, rydym yn gwerthfawrogi bod rhagweld costau ymyriadau polisi hyd at 2050 yn anodd bod amheuaeth ynghylch gwerth hynny. Fodd bynnag, mae'n haws rhagweld y costau tymor byr a thymor canolig. Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol er mwyn hwyluso gwaith craffu effeithiol a hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch effaith a chostau a buddion cysylltiedig polisïau Llywodraeth Cymru.

Nid yw'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru barhau i bledio anwybodaeth ynghylch cost a buddion posibl ei pholisïau datgarboneiddio yn y tymor byr – nid yw'n bosibl i unrhyw un, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, asesu gwerth am arian yr ymyriadau hyn hebddo.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o'r goblygiadau ariannol gan gynnwys costau a buddion fersiwn nesaf ei chynllun datgarboneiddio. Dylid cynnwys hyn ochr yn ochr ag asesiad o effaith carbon pob polisi neu ymyriad.

Tlodi tanwydd

21. Mae £23 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes, sy'n cynnwys Nyth ac Arbed. Nodwyd yng nghyflwyniad y Gweinidog y gallai'r buddsoddiad hwn weithredu fel trosoledd ar gyfer hyd at £24 miliwn o gyllid yr UE, yn ychwanegol at gyllid gan Rwymedigaeth Cwmni Ynni'r DU. O ran cyllid adnoddau, mae BEL 1270 (y rhaglen tlodi tanwydd) yn cynyddu o £2.9 miliwn i £3.3 miliwn oherwydd dyraniad o gronfeydd wrth gefn.

22. Dywedodd y Gweinidog fod y gostyngiad ymddangosiadol mewn cyllid o'i gymharu â'r gyllideb atodol yn bodoli oherwydd:

> "the programme was set back in 2017, so it's the way that it's committed over the four-year period. So, £104 million was committed over a four-year period. The £4 million reduction was set in 2017."

23. Dywedodd y Gweinidog fod y buddsoddiad o £104 miliwn ers 2017 wedi golygu bod 25,000 o gartrefi wedi cael cymorth i wella eu heffeithlonrwydd ynni. Mewn ymateb i gwestiwn am y methiant i ddefnyddio'r cyllid llawn a ddyrannwyd i'r cynllun Arbed mewn blynyddoedd blaenorol, dywedodd y Gweinidog:

> "we've just had a new manager…because we clearly need to be making more advances in relation to this. So, this is currently being monitored very carefully, because we did have some concerns about the scale, if you like. I've had

> assurances this will be increased in the next financial year and, as I say, the funding is available."

Ein barn ni

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor hwn yn cynnal ymchwiliad i dlodi tanwydd a bydd yn cyflwyno adroddiad maes o law.

Methodd Llywodraeth Cymru a chyrraedd ei tharged i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Roeddem wedi gobeithio ac wedi disgwyl gweld ffocws o'r newydd yn y gyllideb ddrafft hon ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd, yn enwedig o gofio y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth cyn bo hir. Rydym yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod digon o gyllid wedi'i ddyrannu i roi'r rhaglenni tlodi tanwydd ar waith ar y raddfa sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog am y defnydd o gyllid a ddyrannwyd i'r cynllun Arbed, sy'n awgrymu y bydd y nifer sy'n manteisio arno yn gwella nawr bod rheolwr cynllun newydd yn y swydd. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am y newid hwn. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau a yw hi'n credu bod y methiannau yn y gorffennol i ddefnyddio'r cyllid a ddyrannwyd i'w priodoli'n bennaf i fethiannau o ran rheoli'r cynllun.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr adroddiad "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell", a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, wedi gwneud argymhellion sylweddol ac uchelgeisiol ynghylch ôl-ffitio cartrefi. Nodwn nad yw'r materion hyn yn dod o fewn portffolio'r Gweinidog. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw'n cael ei datblygu..

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ynghylch a yw'n credu bod y cyllid a ddyrannwyd i'r cynlluniau cartrefi cynnes, Nest ac Arbed, yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau tlodi tanwydd yng Nghymru.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ynghylch yr amgylchiadau sydd wedi arwain at newid rheolwr y cynllun Arbed. Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'n credu y bydd y newid hwn yn ddigonol i drawsnewid sut mae'r cynllun Arbed yn cael ei weithredu.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch ei hamserlen ar gyfer rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad "Cartrefi

Gwell, Cymru Well, Byd Gwell" ar waith. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at unrhyw gyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft at y diben hwn.

3. Brexit

24. Amlygodd y Gweinidog y ffaith bod 74 o brosiectau Brexit ar y gweill yn ei phortffolio. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio wrth gefn a sefydlu systemau rheoleiddio a gweithredol newydd.

25. O ganlyniad i gymeradwyo'r cytundeb ymadael, mae cyfnod trosiannol wedi'i sbarduno. Os daw'r cyfnod hwnnw i ben heb gytundeb ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, bydd y DU yn gadael heb gytundeb. Disgrifiodd y Gweinidog amserlen arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer cytuno ar gytundeb fel un hynod heriol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

26. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU y byddai angen cyllid ychwanegol pe bai Brexit heb gytundeb yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod pontio. Derbyniwyd hyn gan Lywodraeth flaenorol y DU. Nid oedd y Gweinidog mewn sefyllfa i gadarnhau a oedd Llywodraeth bresennol y DU yn derbyn y farn hon.

Ein barn ni

Mae diffyg eglurder yn parhau o ran y trefniadau ar ôl i'r DU adael yr UE ac mae angen datrys llawer o faterion. Ymdrinnir â rhai o'r rhain yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog am y trefniadau cyllido yn y dyfodol. Mae uwch aelodau Llywodraeth bresennol y DU wedi addo ar sawl achlysur na fydd Cymru yn waeth ei byd o ganlyniad i Brexit. Credwn y dylent gadw at eu gair.

Ymhellach, rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru fynediad brys at gronfeydd ychwanegol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol pe bai Brexit heb gytundeb ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor hwn ynghylch unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am y trefniadau ar ôl Brexit. Dylai hyn gynnwys unrhyw drafodaethau ynghylch unrhyw gyllid i liniaru effaith Brexit heb gytundeb.

4. Amaethyddiaeth

27. Mae dyraniadau ar gyfer cyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn aros yr un fath â'r rheini yn y Gyllideb Atodol, sef £235 miliwn ar gyfer Taliadau Uniongyrchol (BEL 2787) a £26.5 miliwn ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (BEL 2949).

Cefnogaeth i ffermydd

28. Ar 30 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r cyllid hwnnw ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer 2020 yn parhau ar yr un lefel â 2019.

29. Comisiynodd Llywodraeth flaenorol y DU yr Arglwydd Bew i adolygu'r dull o ddosbarthu cyllid ar gyfer cymorth i ffermydd ledled gwledydd y DU rhwng 2020 a 2022. O ganlyniad i'r adolygiad, ymrwymwyd €6.12 miliwn ychwanegol y flwyddyn i Gymru am y ddwy flynedd nesaf.

30. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y byddai'r cyllid ychwanegol sy'n deillio o adolygiad Bew yn cael ei ddyrannu, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma. Dywedodd swyddog a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

> "the money hasn't actually been allocated to this department; it's been provisionally allocated to the Welsh Government, then the Cabinet will make a decision on whether it would come to the Minister or not."

31. Cadarnhawyd mai hon oedd y broses arferol ar gyfer dyrannu cyllid o'r fath a bod disgwyl y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu i bortffolio'r Gweinidog.

32. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion i gynlluniau ôl-Brexit ddarparu cefnogaeth ariannol i amaethyddiaeth. Byddai ei "Thaliad Ffermio Cynaliadwy" arfaethedig yn gwobrwyo rheolwyr tir am ddarparu nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Mae elfen cymorth busnes o'r cynllun arfaethedig wedi'i anelu at gynaliadwyedd economaidd.

33. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wrthi'n caffael a datblygu dadansoddiad economaidd cynhwysfawr o'r cynllun newydd. Dywedodd swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog fod £400,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith modelu paratoadol hwn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r gwaith hwn yn rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'i Bil Amaeth i Gymru, pan fydd hynny'n digwydd.

34. Aeth y swyddog ymlaen i egluro y byddai prosiectau peilot yn cael eu hariannu gan amrywiad o fewn y cronfeydd datblygu gwledig presennol. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud:

> "we have quite a large chunk of the rural development programme still to commit and we are looking at piloting new ways of doing things as part of that, and then, as we move into the 2021-22 rural development budget, which of course is beyond the current EU rural development programme, we can look at more ways of piloting things, building on the co-design process that we'll be doing this year, which will give us much more specific things to test."

Rheoliadau llygredd amaethyddol

35. Roedd disgwyl i'r rheoliadau i sefydlu'r dull Parthau Perygl Nitradau i Gymru Gyfan gael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2020. Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y byddai cydymffurfio â hwy yn arwain at gostau ychwanegol i ffermwyr. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn dweud y byddai'n bosibl cynnig dull mwy hyblyg efallai, yn seiliedig ar ymreolaeth a enillir i gyflawni'r un canlyniadau o gymharu â rheoleiddio.

36. O dan y Cynllun Datblygu Gwledig, gall ffermwyr cymwys gael gafael ar gyllid ar gyfer gwaith cynllunio ar reoli maethynnau a chyngor ynghylch y Rheoliadau Parthau Perygl Nitradau drwy Cyswllt Ffermio. Mae cymorth ariannol ar gael hefyd drwy Gynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, i wella adnoddau ac effeithlonrwydd busnesau.

37. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried defnyddio peth o'r 15% sy'n deillio o fodiwleiddio cyllid yr UE, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £40 miliwn, i gefnogi ymyriadau yn y maes hwn. Eglurodd y Gweinidog:

> "we will provide funding where farmers do need assistance in relation to ensuring they have the right structure on their farm in relation to slurry et cetera. So, they are very early discussions. I have talked about it with one of the unions. That's one area where I think we could look at using that £40 million."

38. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai hyn yn ddigonol, dywedodd y Gweinidog:

> "Probably not. I haven't got all the advice yet, so that's something that we need to take into account, obviously."

Ein barn ni

Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i sicrhau y bydd taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn parhau yn 2021. Disgwyliwn i'r €6.12 miliwn sydd wedi'i ymrwymo o

ganlyniad i adroddiad Bew gael ei ddyrannu i bortffolio'r Gweinidog. Byddem yn ddiolchgar i gael diweddariad gan y Gweinidog ar ôl i'r Cabinet wneud penderfyniad ar y mater hwn.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog am y gwaith modelu a threialu ar gyfer y cynllun cymorth ffermio arfaethedig ar ôl Brexit. Dylai'r Gweinidog nodi'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer y gwaith hwn; y gwaith o ddatblygu'r cynllun ffermio cynaliadwy; ac ar gyfer cyflwyno Bil amaeth i Gymru.

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am nifer a natur y prosiectau peilot a faint o gyllid a ddyrennir iddynt.

Nodwn sylwadau'r swyddog nad yw swm eithaf mawr o'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi'i ymrwymo eto. Byddem yn ddiolchgar i gael eglurhad o'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch faint o'r Cynllun a ymrwymwyd hyd yn hyn. Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar i gael eglurhad ynghylch y symiau penodol o gyllid o'r Cynllun nad ydynt wedi'u hymrwymo sy'n cael eu defnyddio ar gyfer prosiectau peilot.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi penderfynu sut y dylid defnyddio'r £40 miliwn, fwy neu lai, sy'n deillio o fodiwleiddio. Yn benodol, dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n bwriadu defnyddio'r cronfeydd hyn i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd bosibl, gadarnhau a yw'r €6.12 miliwn a ymrwymwyd o ganlyniad i adroddiad Bew wedi'i ddyrannu i'w phortffolio.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ar yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer y cynllun cymorth ffermio arfaethedig ar ôl Brexit, gan gynnwys cyflwyno Bil amaeth i Gymru.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro faint o'r Cynllun Datblygu Gwledig a ymrwymwyd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch faint o'r Cynllun nad yw wedi'i ymrwymo sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau peilot ar gyfer cynllun cymorth ffermio ar ôl Brexit Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi gwneud penderfyniad ynghylch sut y bydd yn defnyddio'r £40 miliwn, fwy neu lai, sy'n codi o fodiwleiddio. Dylai'r Gweinidog nodi sut mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

5. Trefniadau llywodraethu amgylcheddol

39. Nid oes unrhyw ddyraniadau penodol ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol yn y gyllideb ddrafft.

40. Yn ystod haf 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn ei ail adroddiad ynghylch yr 'egwyddorion ar drefniadau llywodraethu amaethyddol ar ôl Brexit <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25682>. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad ynghylch yr angen i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol domestig i lenwi'r bwlch llywodraethu ar ôl Brexit.

41. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedodd y Gweinidog fod grŵp o randdeiliaid wedi cael y dasg o ystyried modelau ar gyfer corff llywodraethu a threfniadau trosiannol amaethyddol domestig rhag ofn y bydd Brexit heb gytundeb. Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog fod y grŵp yn parhau i ystyried y materion hyn a bod disgwyl iddo gyflwyno adroddiad o fewn wythnosau. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r adroddiad yn cynnwys:

> "a thorough options appraisal, and included in that will be financial implications."

42. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid canlyniadol yn deillio o rai o'r darpariaethau i Loegr yn unig a gynhwysir ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU. Gellid defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn, o bosibl, ar gyfer ariannu ateb Cymreig arfaethedig.

43. Ceisiodd y Gweinidog dawelu meddwl y Pwyllgor fod y fframwaith llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn gadarn, o ganlyniad i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni fydd y fframwaith hwn yn diflannu pan fydd y DU yn gadael yr UE. Pwysleisiodd y Gweinidog fod Cymru mewn sefyllfa a wahanol iawn i Loegr, o ran trefniadau llywodraethu.

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ymrwymiad y Gweinidog i rannu gyda ni adroddiad y grŵp rhanddeiliaid sy'n ystyried y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog am y cyllid ar gyfer sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol domestig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyllid

wedi'i ddyrannu i waith paratoi yn y gyllideb ddrafft. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn egluro sut mae hi'n disgwyl i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu.

Disgwyliwn i Lywodraeth y DU gyflwyno Mesur Amgylchedd cyn hir. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn egluro a yw hi wedi gofyn i bwerau gael eu cynnwys yn y Bil sydd i ddod ac yn darparu asesiad o'r costau sy'n deillio o ddarpariaethau Cymru ym Mil Amgylchedd y DU.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog, ar y cyfle cyntaf, rannu gyda'r Pwyllgor adroddiad y grŵp rhanddeiliaid ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog egluro a oes unrhyw gyllid wedi'I ddyrannu ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion y grŵp rhanddeiliaid ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

6. Bioamrywiaeth

44. Nododd adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019 fod bywyd gwyllt Cymru yn parhau i ddirywio, gyda 17% o rywogaethau bellach mewn perygl o ddiflannu.

Rhaglen LIFE

45. Cronfa'r UE sy'n cefnogi prosiectau amgylcheddol, cadwraeth natur a gweithredu ar yr hinsawdd yw'r Mae'r Rhaglen LIFE. Mewn senario Brexit a drafodwyd, bydd sefydliadau yn y DU yn gallu parhau i gymryd rhan yn y rhaglen LIFE tan ddiwedd 2020 a bydd prosiectau llwyddiannus y cytunwyd arnynt o fewn yr amserlen hon yn cael eu hariannu'n llawn gan y Comisiwn nes iddynt orffen.

46. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n anelu at barhau i allu cael mynediad at raglen LIFE yr UE ar ôl Brexit, yn amodol ar ystyriaeth o'r costau a'r buddion. Aeth ymlaen i ddweud:

> "if that's not possible, I would hope there would be an equivalent arrangement. That's part of the negotiation with the UK Government in relation to our future relationship with the EU, so I'm having those discussions."

Cyfarwyddebau Natur a rhwydwaith Natura 2000

47. Y "Cyfarwyddebau Natur" yw Cyfarwyddeb Adar yr UE a Chyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Gyda'i gilydd, mae'r Cyfarwyddebau'n sefydlu'r Rhwydwaith

Natura 2000, sef rhwydwaith ecolegol o safleoedd a warchodir a gaiff eu rhannu'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

48. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 yn datgelu mai dim ond 55% o'r rhywogaethau sydd yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru a oedd mewn cyflwr ffafriol. Mae BEL 2825 (Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion) yn cynnwys £15 miliwn ychwanegol ar gyfer gwella cyflwr y safleoedd hyn a chryfhau'r trefniadau ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol.

49. Cadarnhaodd y Gweinidog fod trafodaethau cynnar wedi digwydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ond na wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch sut y byddai'r £15 miliwn yn cael ei rannu rhwng safleoedd morol a daearol. Dywedodd swyddog a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

> "We're certainly considering how we might be able to make that money available not just to NRW, as one of our delivery partners, but to others who would be able to make improvements or can help manage Natura sites. As the Minister said, although we've not yet decided exactly how it will split between terrestrial and marine biodiversity, we're certainly considering and are very hopeful that we'll be able to support both."

Monitro a thystiolaeth

50. Tynnodd y Gweinidog sylw at y buddsoddiad blynyddol yn y Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig ac at werth llunio polisi ar sail tystiolaeth. Dywedodd fod £1.2 miliwn yn cael ei ddyrannu bob blwyddyn i'r rhaglen a'i bod yn gwbl ymrwymedig i barhau i gyllido hyn oherwydd bod angen y rhaglen fonitro drylwyr honno. Disgrifiodd swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog y rhaglen fel y gorau o'i math yn y DU o ran ei chyfraniad at ddatblygu polisi ac asesu ei effaith:

> "This gives us really detailed spatial information, so we can look at what things mean in different places in Wales in different types of farms. The level of detail we have for soil mapping, for instance, through this programme is unprecedented anywhere else in the UK, and as we're doing our future farming policy design, this is really powerful, really important."

Ein barn ni

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Rhaglen LIFE.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto ynghylch dyrannu'r £15m ar gyfer y rhwydwaith Natura 2000. Byddem yn

ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Rhaglen LIFE.

Argymhelliad 15. Rydym yn nodi y dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn unwaith y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch dyrannu'r £15 miliwn ar gyfer y rhwydwaith Natura 2000.

7. Y môr a physgodfeydd

51. Mae BEL 2870 (Y môr a physgodfeydd) yn dyrannu £4.5 miliwn ar gyfer 2020-21. Dywedodd y Gweinidog fod y BEL hwn wedi elwa ar fuddsoddiad ychwanegol o gronfa bontio Brexit yn 2019-20. Roedd y cyllid hwn bellach wedi dod i ben, ond dywedodd fod y cyllid sylfaenol ar gyfer y môr a physgodfeydd, heb gynnwys cyllid pontio'r UE, wedi cynyddu o £2.192 miliwn i £3.742 miliwn yn y gyllideb hon.

52. Dywedodd y Gweinidog fod gwaith cynllunio manwl ar y gyllideb ar lefel adrannol ar y gweill ar hyn o bryd. Sicrhaodd y Pwyllgor fod cadwraeth forol a bioamrywiaeth yn flaenoriaethau.

53. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ei pholisïau morol a physgodfeydd ar ôl Brexit. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gyllid penodol wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer datblygu polisi pysgodfeydd yn y dyfodol - bydd costau'n cael eu talu o'r gyllideb forol a physgodfeydd bresennol. Gan gyfeirio at ofynion adnoddau yn y tymor byr, eglurodd y Gweinidog:

> "the main part of resources that will be needed isn't financial; it's more staff resources."

54. Dywedodd y Gweinidog fod staffio yn adran y môr a physgodfeydd eisoes wedi cael hwb, yn sgil penodi Cyfarwyddwr newydd.

55. Roedd cyllideb 2019-20 yn cynnwys cyllid amhenodol ar gyfer nodi, dylunio a rheoli ardaloedd morol gwarchodedig newydd. Fodd bynnag, ni ddynodwyd unrhyw Barthau Cadwraeth Morol newydd yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mewn ymateb i gwestiwn ar y mater hwn, dywedodd y Gweinidog:

> "...we haven't made the progress this year that I would have liked to have seen. But it is about prioritisation and I'm afraid that Brexit has taken a significant amount of work in this area. Plus, also, I was really keen to get the Wales national marine plan; it was something that I really wanted to see when I came into post. It took three years, it took a lot, lot longer than I thought it would, but that's where we've, sort of, concentrated this year."

56. Dywedodd y Gweinidog, oherwydd y gwaith a wnaed y llynedd a'r cyllid hwn o £15 miliwn, bydd yn gallu gwneud cynnydd sylweddol y flwyddyn nesaf.

Ein barn ni

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn disgwyl gweld cynnydd ar gadwraeth forol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Pwyllgor yn gwneud cais i'r Gweinidog rannu cynlluniau ei hadran yn y maes polisi hwn. Ymhellach, hoffai'r Pwyllgor wybod faint o gyllid fydd yn cael ei ddyrannu yng nghyllideb yr adran i gefnogi'r gwaith hwn ac i ddynodi parthau cadwraeth forol yn 2020-2021.

Dywedodd y Gweinidog fod adran y môr a physgodfeydd wedi cael hwb yn sgil penodi staff newydd. Fodd bynnag, yn ystod ein hymchwiliad dilynol i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fe'n hysbyswyd bod rhanddeiliaid yn parhau i fod â phryderon ynghylch y capasiti staffio yn y maes polisi hwn. Ategir hyn gan y dystiolaeth na ddynodwyd unrhyw Ardaloedd Cadwraeth Forol newydd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd diffyg capasiti sy'n deillio o waith sy'n gysylltiedig â Brexit. Gofynnwn am ragor o wybodaeth am y proffil staffio yn adran y môr a physgodfeydd.

Yn olaf, nid yw'r ffigurau a ddarperir yn naratif y gyllideb ddrafft yn cyfateb â'r ffigurau a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft. Byddem yn ddiolchgar i gael eglurhad ynghylch hyn.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ar gynlluniau ei hadran ar gyfer cadwraeth morol yn y flwyddyn i ddod. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch faint o gyllid fydd yn cael ei ddyrannu yng nghyllideb yr is-adran i gefnogi'r gwaith hwn ac ar gyfer dynodi parthau cadwraeth forol yn 2020-2021.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am broffil staffio presennol adran y môr a physgodfeydd ac unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu nifer y staff.

8. Cyfoeth Naturiol Cymru

57. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi wynebu gostyngiadau yn ei gyllideb o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ac eithrio rhai mân newidiadau, cynhelir y cyllid ar yr un lefel - £ 93 miliwn - ar gyfer 2020-21. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 1.8%. Mae'r £93 miliwn yn cynnwys Cymorth Grant o £60 miliwn a £33 miliwn ar gyfer rheoli risg llifogydd (y mae £20 miliwn ohono'n gyllid refeniw a £13 miliwn yn gyllid cyfalaf).

58. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, dywed y Gweinidog y bydd cynnal cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr un lefel ar gyfer 2020-21 yn ei alluogi i roi hwb i'w ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus a rheoli llifogydd yn fwy naturiol. Dywed y Gweinidog hefyd y bydd disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Twf Amgylcheddol newydd a rhaid iddo ddefnyddio'r adnoddau sylweddol sydd ar gael iddo yn 2020-21 i weithio gydag eraill i "dyfu natur".

59. Mewn tystiolaeth lafar, roedd y Gweinidog yn cydnabod mai cyllideb "wastad" oedd hon ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, ond pwysleisiodd nad Llywodraeth Cymru oedd ei hunig ffynhonnell gyllido. Esboniodd swyddog a ddaeth gyda'r Gweinidog y bu mwyafrif y cynnydd yn y cyllid ar gyfer portffolio'r Gweinidog yn gyllid cyfalaf, yn hytrach na chyllid refeniw, ac felly roedd cyfyngiad o ran yr hyn y gallent ei "gwthio drosodd". Dywedodd:

> "the Minister has monthly meetings with the chief executive and chair to go through their financial position. There's been a reprioritisation within there. The organisation itself has changed significantly since the merger, and they're confident, when they talk to us, that they can deliver many of these new things, which are the norm for them now as well. So, that's where I think we are, and I think their financial position is a lot better than it was a few years ago."

60. Dywedodd y Gweinidog mai diben yr ailgynllunio sefydliadol yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud oedd sicrhau ei fod mewn sefyllfa i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

> "They will help us, of course, with the national forest, but it's not just down to NRW to deliver the national forest; we will be looking at other ways of doing that. Flooding is obviously a big part of it as well—flooding prevention. And, again, it will be capital funding."

61. Ym mis Chwefror 2019, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor hwn ei fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi proses fwy cyfranogol ar

waith o 2020-21 ymlaen ac ar ffyrdd i gynhyrchu mwy o incwm o'i weithgareddau. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos iawn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r gyllideb ddrafft. Dywedodd:

> "I know there have been a number of meetings where they've focused on priorities. There have been a number of finance meetings, there's been a workshop. I think there's been a challenge to NRW's financial plans. I think everybody's benefited from having that kind of close participation."

62. Ychwanegodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i edrych ar ffyrdd eraill o gael gafael ar refeniw.

63. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch galwad Cyfoeth Naturiol Cymru am setliadau ariannol aml-flwyddyn, cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai hyn yn bosibl, ond bod rhagolygon cyllidebol aml-flwyddyn dangosol yn cael eu rhannu a'u trafod â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ein barn ni

Eleni, bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymruu gyllideb "llinell wastad", sy'n ostyngiad mewn termau real.

Dylai'r setliad cyllid hwn gael ei weld yng nghyd-destun gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn cyllid a chynnydd yn ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau. Eleni, unwaith eto, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni mwy, ar ffurf y goedwig genedlaethol newydd, gwaith i adfer mawndiroedd a rhai safleoedd Natura 2000.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud wrthym dro ar ôl tro bod cyllideb sy'n lleihau yn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau a chymryd dyletswyddau newydd. Yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, cyfaddefodd y Gweinidog yr hyn a ganlyn:

"if we put further requirements on them [NRW], we would have to look very carefully at how they would fund them".

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth inni i awgrymu bod hyn wedi digwydd. Ydy, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd â phroses o ailgynllunio sefydliadol, ond mae cyfyngiad o ran faint o gapasiti ac adnoddau y gellir eu rhyddhau drwy ymarferion o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ei sesiwn graffu flynyddol reolaidd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar yn 2020 a bydd yn ystyried y materion hyn ymhellach maes o law.

9. Llifogydd ac erydiad arfordirol

64. Cyfanswm BEL 2230 (Rheoli risg llifogydd a refeniw dŵr) yw £64.7 miliwn, sy'n uwch na'r £51.8 miliwn a ddyrannwyd y llynedd. Mae'r £64.7 miliwn yn cynnwys adnodd o £27.2 miliwn a chyfalaf o £37.5 miliwn.

65. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ac mae'n cyllido'r gweithgareddau perthnasol sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau rheoli risg, sef Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol yn bennaf.

66. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar strategaeth newydd i reoli'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol ac mae'n bwriadu cyhoeddi'r fersiwn derfynol yn 2020.

67. Amlygodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog welliannau i'r ffordd y mae cynlluniau'n cael eu blaenoriaethu er mwyn targedu prosiectau yn yr ardaloedd sydd â'r risg uchaf sy'n dangos y gwariant ataliol mwyaf effeithiol. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog fod y flaenoriaeth hon yn seiliedig ar gofrestr cymunedau mewn perygl Cyfoeth Naturiol Cymru:

> "That's an index of risk from rivers, the sea and surface water, and that's also alongside local evidence of recorded flood events…."

68. Dywedodd y Gweinidog:

> "our prioritisation also takes account of the number of properties, benefiting cost per property and the wider benefits of a proposed scheme. So, when we get potential schemes brought forward from local authorities, for instance, that's an area that we consider, and we also encourage natural flood alleviation schemes. As I said, we want to see less concrete and more greener solutions to flood prevention."

69. Sefydlwyd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol i leihau'r risg o amgylch yr arfordir ac mae'n cael ei darparu gan awdurdodau lleol. Mae'r Rhaglen yn un tair blynedd sy'n werth £150 miliwn a ariennir drwy fenter fenthyca llywodraeth leol. Yn ôl y Gweinidog:

> "coastal schemes receive 100 per cent funding to develop outline business cases for schemes and that early scheme development, and then the design and construction of eligible schemes are then funded by local authorities through that prudential borrowing from the Welsh Government, and we provide 75 per cent of the repayment costs."

70. Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun yn ddeniadol i awdurdodau lleol oherwydd ei fod yn hyblyg, ac y gallant wedyn ddewis sut i godi eu 25 y cant.

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r buddsoddiad cynyddol mewn rheoli'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol.

Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, dywedwyd wrthym fod gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli risg newydd. Nid yw wedi'i chyhoeddi eto. Rydym yn siomedig gyda'r oedi a byddem yn ddiolchgar am wybodaeth bellach am yr amserlen ar gyfer ei chyflwyno. Rydym hefyd yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch unrhyw ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu'r strategaeth, neu unrhyw gamau sy'n codi ohoni.

Y llynedd, gwnaethom fynegi cefnogaeth i fwriadau'r Gweinidog i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio ffynonellau buddsoddi amgen ar gyfer ymyriadau i reoli'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol. Byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ynghylch y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r strategaeth rheoli risg newydd. Dylai'r Gweinidog hefyd egluro a oes cyllid wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu'r strategaeth, neu unrhyw gamau sy'n codi ohoni.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran defnyddio ffynonellau buddsoddi amgen ar gyfer ymyriadau i reoli'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol.

10. Coedwigaeth a choetir

71. Mae £4.5 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer rhaglen i wella cyflwr a chysylltedd coetiroedd hynafol ac i gyflymu'r gyfradd plannu coed (BEL 2825). Mae £0.5 miliwn ychwanegol o gyllid adnoddau wedi'i

ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer cymorth refeniw i goedwigoedd cenedlaethol (BEL 2827).

72. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth goetiroedd ddiwygiedig yn 2019. Mae'n cynnwys y targed i blannu o leiaf 2,000 hectar o goetir y flwyddyn o 2020 a mesurau i gefnogi'r broses blannu. Mae'r cynllun cyflenwi carbon isel yn ailadrodd y targed hwn, gan ychwanegu mai'r nod yw cynyddu'r nifer o goed sy'n cael eu plannu i 4,000 hectar y flwyddyn mor gyflym â phosibl.

73. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw cyllid ar gyfer coedwigaeth yn ddigonol i gyflawni'r targedau plannu coed, dywedodd y Gweinidog:

> "I think we'll need additional funding...We're currently scoping out the national forest, but we do need to look at other ways of funding woodland and trees. The private sector, I think, will play a big part; I don't think we can just do it from Government alone. You've heard me say many times that we're not planting enough trees and we need to ensure that we plant more, and we will."

74. Awgrymodd y Gweinidog y gellid defnyddio cyllid o'r Cynllun Twf Amgylcheddol i gefnogi'r broses o blannu coed dan arweiniad y gymuned:

> "As we're working up the environmental growth plan, I'm very keen to see little bits of money go in. So, again, you will have heard me talk about tiny forests. So, I think a tiny forest in a community is a great way of being part of that environmental growth plan."

75. Roedd maniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog yn cynnwys polisi i greu coedwig genedlaethol. Mae bellach yn ymddangos mewn sawl dogfen bolisi gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

> "part of the vision that we are developing for the national forest is how we can maximise that project to deliver multiple benefits, and part of that will be looking to work with the commercial forestry sector to see what they need and what we can do, balancing a lot of the other priorities—biodiversity, timber for house building, flood prevention, et cetera. But, part of the broader vision for the national forest includes the commercial."

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud nad yw hi'n credu bod y cyllid yn y gyllideb ddrafft yn ddigonol i gyrraedd targedau plannu coed Llywodraeth Cymru.

Nodwn farn y Gweinidog y bydd angen sicrhau cyllid ychwanegol i gyflawni'r agenda hon, gan gynnwys o'r sector masnachol. Fodd bynnag, ni welwn unrhyw dystiolaeth o gynnydd yn y maes hwn. Hoffem gael manylion gan y Gweinidog ynghylch sut y mae'n bwriadu datblygu hyn.

Byddem yn ddiolchgar i gael diweddariad gan y Gweinidog ar unrhyw waith sydd wedi'i wneud i asesu goblygiadau ariannol y polisi coedwigaeth cenedlaethol. Yn benodol, rydym yn ceisio eglurhad ynghylch y cynlluniau ar gyfer y £4.5 miliwn o gyllid cyfalaf a'r £0.5 miliwn mewn refeniw a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft hon.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r sector masnachol er mwyn iddo chwarae rhan yn y broses o gyrraedd y targedau plannu coed.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch datblygiad y polisi coedwigaeth cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw asesiad a wnaed o gostau a buddiannau'r polisi.

11. Lles anifeiliaid

76. Mae BEL 2270 (Iechyd a lles anifeiliaid) yn aros yr un fath ag yr oedd yn y Gyllideb Atodol, sef £108,000 o gyllid adnoddau.

Bridio cŵn

77. Yn gynnar yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar wahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti. Yn dilyn hynny, ymrwymodd y Gweinidog i gyflwyno gwaharddiad yn ystod 2020.

78. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei bod yn ailedrych ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 gyda'r nod o wella amodau lles mewn sefydliadau bridio. Cafodd grŵp o randdeiliaid y dasg o adolygu'r rheoliadau ac roedd disgwyl iddo adrodd i'r Gweinidog ar ddiwedd 2019.

79. Cydnabu'r Gweinidog y gallai fod goblygiadau ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn amrywio gan ddibynnu ar nifer y ffermydd cŵn bach yn y rhanbarth. Gellid lliniaru hyn drwy gydweithrediad gan awdurdodau lleol er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau ac arbenigedd. Cydnabu'r Gweinidog y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol yn y pen draw ar ôl i'r holl gyfleoedd o'r fath ddod i ben.

Ein barn ni

Er ein bod yn cydnabod y gallai fod goblygiadau ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol sy'n deillio o reoleiddio sefydliadau bridio cŵn ymhellach neu orfodi gwaharddiadau, nid oes cyllid yn y gyllideb ddrafft at y diben hwn. Rydym yn ceisio eglurhad o fwriadau'r Gweinidog ynghylch y mater hwn.

Byddem yn ddiolchgar am wybodaeth am yr amserlen ar gyfer cyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti, y mae disgwyl iddo ddigwydd yn 2020. Yn benodol, rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch sut y mae'n rhagweld y bydd y gwaharddiad yn cael ei orfodi ac a yw hi'n rhagweld y bydd hyn yn arwain at gostau pellach i awdurdodau lleol. Yn olaf, rydym yn ceisio eglurhad ynghylch a yw'r gyllideb ddrafft hon yn cynnwys cyllid i gefnogi gweithredu gwaharddiad o'r fath.

Rydym yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw drafodaethau perthnasol a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Thai.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai ac awdurdodau lleol ynghylch sut y bydd y costau sy'n codi o'r ymyriadau lles anifeiliaid arfaethedig yn cael eu cyllido.

Rhan 2 – Craffu ar waith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

12. Datgarboneiddio trafnidiaeth

80. Dangosodd adroddiad cynnydd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UK CCC) yn 2019 mai trafnidiaeth ar y ddaear oedd y sector allyrru mwyaf yn y DU, sydd i gyfrif am 23% o'r allyriadau. Mae'r allyriadau trafnidiaeth yng Nghymru wedi gostwng dim ond 3% ers y llinell sylfaen yn 1990.

81. Amlygodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog yr hyn a ganlyn:

> "revenue spend on public transport and sustainable travel accounts for 75% of the total transport revenue budget (excluding non-cash). This is made up of 18% for Active Travel Action and 57% Rail support".

82. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r strategaeth yn seiliedig ar hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy newydd, a fydd yn sail i newid moddol. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r dull hwn yn golygu'r hyn a ganlyn:

> "we have to exhaust all options before we reach the point of investing in solutions for motor vehicles that are polluting. So, first and foremost, at the very top of our priority list are interventions that regard walking and cycling. If every solution has been exhausted in that area in that regard, then we move on to public transport. Then, if we find that public transport isn't the solution for a particular challenge, we move on to ultra-low emission vehicles, and only then, if we've exhausted all options there, do we move into the area of looking at investing in schemes for other motor vehicles."

Effaith carbon buddsoddi mewn trafnidiaeth

83. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phrosiectau Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru ar gyfer 2019 ar 4 Tachwedd. Mae'r adran drafnidiaeth yn nodi bod datgarboneiddio wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau seilwaith. Fodd bynnag, mae bron i 65% (yn ôl gwerth) o fuddsoddiadau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a nodwyd yn y Cynllun yn gynlluniau ffyrdd (£1,593.7 miliwn o gyfanswm o £2,461.7 miliwn o fuddsoddiad).

84. Gan gyfeirio at y Cynllun, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd nodi'r hyn a ganlyn:

> "rail infrastructure is not devolved. If rail infrastructure was devolved to Wales, the Welsh Government, and the funding with it, then the WIIP would look very different indeed. Secondly, there's a £15 million threshold on projects contained within the WIIP and as a consequence that obviously excludes or leaves out some of the projects associated with active travel and with bus services as well and bus infrastructure."

85. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi awgrymu y dylid datblygu 'cyfrif effaith carbon' ar gyfer cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r dull hwn yn cael ei weithredu ar gyfer y strategaeth drafnidiaeth. Ychwanegodd y Gweinidog:

> "the transport strategy will contain detailed assessments of carbon impacts and the specific investments that we're making. So, too, the carbon delivery plan for 2021."

Ein barn ni

Nodwn sylwadau'r Gweinidog yn ei gyflwyniad ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £219 miliwn ar gyfer Teithio Cynaliadwy fel rhan o'r gyllideb ddrafft. Nodwn hefyd, fodd bynnag, absenoldeb diffiniad o beth yw 'Teithio Cynaliadwy'. Byddem yn falch o gael eglurhad pellach am y mater hwn.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y bydd y strategaeth drafnidiaeth yn cynnwys manylion effeithiau carbon. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am y gyllideb ddrafft hon - ei bod yn anodd asesu effeithiolrwydd buddsoddiad ac ymyriadau Llywodraeth Cymru heb asesiad o effaith carbon penderfyniadau buddsoddi mawr. Fel yr esboniodd y Comisiynydd yn ei chyngor i'r Pwyllgor hwn:

"er gwaethaf ymdrechion i fuddsoddi mewn teithio cynaliadwy, rydym ni'n bryderus fod buddsoddiadau cyfalaf eraill y Llywodraeth, fel mewn heolydd, yn tanseilio'r cynnydd sy'n digwydd mewn lleihau carbon."

Nodwn hefyd sylwadau'r Comisiynydd, er gwaethaf ymrwymiadau'r Gweinidog ynghylch datgarboneiddio trafnidiaeth, fod gwaith asesu amgylcheddol ar gyfer rhai cynlluniau ym mhortffolio'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn allyrwyr carbon net. Nid yw'n bosibl darganfod effaith carbon net y buddsoddiadau a nodir yn y gyllideb drafnidiaeth.

Fel y nodwyd gennym yn Rhan 1 yr adroddiad hwn, rydym yn cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai Llywodraeth Cymru gynnal

dadansoddiad o'i gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf, mewn perthynas ag effaith carbon a chyhoeddi manylion am effaith gyffredinol carbon ei chyllideb.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog eglur sut y diffinnir "teithio cynaliadwy" mewn perthynas â'r dyraniadau cyllid yn y gyllideb ddrafft.

13. Ansawdd aer

86. Mae gan Gymru beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU. Mae gan Gaerdydd a Phort Talbot lefelau mater gronynnol uwch na Birmingham neu Fanceinion, a ffordd yng Nghaerffili yw'r ffordd fwyaf llygredig y tu allan i Lundain. Mae ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod llygredd aer yn cyfrannu at oddeutu 2,000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru.

87. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad ar Gynllun Aer Glân ar gyfer Cymru ar 10 Rhagfyr 2019. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar ystod o ymrwymiadau presennol a chamau gweithredu newydd arfaethedig. Mae hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn ar Ddeddf Aer Glân i Gymru.

88. Dywedodd y Gweinidog fod symiau sylweddol wedi'u dyrannu yn y gyllideb hon a chyllidebau diweddar i fynd i'r afael â llygredd aer. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod mwy o gyllid wedi'i ategu i'r dyraniadau cychwynnol:

> "this financial year we spent more than £40 million. We'd budgeted £20 million; we've actually doubled it. And, as the Minister said earlier, we're spending more this year for the first time ever on active travel than we are on roads. Next year, we've budgeted £30 million—£37 million. So, the original plan was £30 million; it's actually £37 million in the draft budget. And we'll be seeing if there are opportunities to increase that as we have this year, in-year."

89. Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru derfynau cyflymder o 50 milltir yr awr dros dro mewn pum lleoliad ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd sydd â lefelau uwch na'r terfyn cyfreithiol o nitrogen deuocsid.

90. Dywedodd y Gweinidog y byddai data sy'n dangos effaith yr ymyriadau hyn yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Aeth ymlaen i ddweud:

> "The figures for the first period that we carried out an assessment showed that there is a reduction across all five areas. I think only one, though—the A494 through Deeside—showed a reduction in nitrogen dioxide levels that indicate that we're now compliant. But we need the trend—we need the trend over 18 months. So, those figures that will be published soon are absolutely vital."

91. Amlinellodd cyflwyniad ysgrifenedig y Gweinidog, yn ychwanegol at y terfynau cyflymder o 50 mya, fod gwaith yn parhau ar ddatblygu Mesurau Cadw Rhagofalus. Dywedodd y Gweinidog fod angen cyllid i ddatblygu'r Mesurau yn 2020-21 ac y gallai hyn gynnwys ymarferion ymgynghori cyhoeddus a gweithgareddau dylunio. Yn ei thystiolaeth lafar, eglurodd y Gweinidog:

> "there are some estimates, but the cost of any work that's required will obviously be dependent on the figures that are going to be published in March, and whether compliance at one or more sites has been achieved. Estimates have been something in the region of £8 million, I think, so far, but, as I say, it could vary quite dramatically, depending on the figures that are published." Ein barn

Ein barn ni

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar effaith ymyriadau lleihau cyflymder cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r data ym mis Mawrth 2020. Dylai hyn gynnwys amcangyfrif ar sail gwybodaeth o ba bryd y mae'n disgwyl y bydd pob safle'n llwyddo i gydymffurfio â'r targedau ansawdd aer.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ynghylch datblygu Mesurau Cadw Rhagofalus. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor gael mwy o fanylion am y cynlluniau ymgynghori; yr amserlen ar gyfer y rhaglen waith; a'r cyllid sy'n mynd i gael ei ddyrannu i'r polisi.

Rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft i gefnogi gweithrediad y Cynllun Aer Glân a datblygiad y Ddeddf Aer Glân.

Cyn bo hir, bydd y Pwyllgor hwn yn cynnal ymchwiliad i bolisïau aer glân, i lywio datblygiad Bil Aer Glân Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ystyried y materion hyn a materion eraill ymhellach fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Cynulliad ynghylch effaith yr ymyriadau lleihau cyflymder cyn gynted â phosibl ar ôl i'r data gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Dylai hyn gynnwys amcangyfrif ar sail gwybodaeth o ba bryd y mae'n disgwyl y bydd pob safle'n llwyddo i gydymffurfio â'r targedau ansawdd aer.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ynghylch datblygiad y Mesurau Cadw Rhagofalus. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor gael manylion pellach ynghylch y cynlluniau ymgynghori; yr amserlen ar gyfer y rhaglen o waith; a'r cyllid a ddyrennir i'r polisi.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro a oes cyllid yn y gyllideb ddrafft i gefnogi gweithrediad y Cynllun Aer Glân a datblygiad y Ddeddf Aer Glân.

14. Buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth

Goblygiadau'r penderfyniad ynghylch Ffordd Rhyddhad yr M4

92. Ar 4 Mehefin 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog na fyddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â ffordd ryddhad arfaethedig yr M4. Cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (a elwir yn Gomisiwn Burns hefyd) wedi'i sefydlu i ystyried dewisiadau amgen i'r ffordd ryddhad.

93. Cyhoeddwyd diweddariad cynnydd ar waith y Comisiwn ar 17 Rhagfyr 2019. Roedd hyn yn cynnwys tri argymhelliad brys – parth 50mya hirach, parhaol; mwy o wahanu lonydd; a gwell ymateb gan swyddogion traffig.

94. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyllid ar gael i wneud yr hyn a ganlyn:

> "implement recommendations that emerge from the Burns commission, including those early interventions that have already been published. Officials are working through them with a view to being able to implement them without any delay."

Ein barn ni

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad cynnydd Rhagfyr 2019 Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Dylai hyn gynnwys asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol yr ymyriadau hyn.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad yn rheolaidd ynghylch y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad cynnydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019.